

Chwarae, dysgu a gofal plentynod cynnar: Llwybrau datblygu 0 i 3



Cynnwys

Cyflwyniad	3
Y pum llwybr datblygu	5
Camau datblygu	7
Dyma fi! (genedigaeth hyd at 12 mis)	7
Rwy'n archwilio! (1 i 2 oed)	17
Edrycha arna i nawr! (2 i 3 oed)	26

Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn nodi fframwaith ar gyfer sicrhau darpariaeth o ansawdd i bob plentyn o adeg eu geni hyd at 3 oed. Maen nhw'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig ar gyfer datblygiad plant a'r ffordd orau o'u helpu i dyfu a datblygu mewn ffyrdd sy'n addas ar gyfer eu cam datblygiad. Fe'u datblygwyd ar y cyd ag ymarferwyr ac arbenigwyr o bob rhan o'r sector addysg a gofal plant.

Rydyn ni'n gwybod bod ansawdd y rhyngweithio rhwng oedolion sy'n galluogi dysgu, profiadau sy'n ennyn diddordeb ac amgylcheddau effeithiol yn hanfodol er mwyn helpu pob plentyn i wneud cynnydd. Wrth ystyried dysgu plant, mae angen i ni gofio'n gyson bod ein rôl fel oedolion sy'n galluogi dysgu yn cael effaith uniongyrchol ar ansawdd y profiadau sy'n ennyn diddordeb a'r amgylcheddau effeithiol.

Yn yr adran hon, rydyn ni'n cyflwyno pum llwybr datblygu. Dylai'r llwybrau datblygu hyn sicrhau bod babanod a phlant ifanc yn dysgu ac yn datblygu mewn ffyrdd sy'n briodol iddyn nhw. Dylid defnyddio'r llwybrau datblygu ochr yn ochr â'r [Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru \(Fframwaith Ansawdd\)](#) i'n helpu wrth gynllunio profiadau ystyrion sy'n ymateb i anghenion a diddordebau datblygol plant. Mae'r llwybrau datblygu hyn yn canolbwyntio ar y plentyn, yn rhyngddibynnol, a'r un mor bwysig â'i gilydd. Maen nhw'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn ac mae cysylltiad agos rhyngddyn nhw ag egwyddorion allweddol datblygiad plant. Fe'u datblygwyd er mwyn sicrhau y gellir helpu plant i wneud cynnydd yn ôl eu cyflymder eu hunain ac yn yr amgylchedd dysgu a ffefrir ganddyn nhw.

Mae'r pum llwybr datblygu fel a ganlyn:

- perthyn
- cyfathrebu
- archwilio
- datblygiad corfforol
- lles

Mae gan blant anghenion gwahanol yn ystod camau datblygiad gwahanol. Yn unol â hynny, caiff y llwybrau datblygu o adeg geni hyd at 3 oed eu cyflwyno'n fras ar gyfer cyfnodau o 12 mis. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd cynnydd holistaidd plant unigol yn cyfateb yn union i ddim ond un llwybr datblygu. Felly fel ymarferwyr, dylen ni fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd cyn ac ar ôl cam penodol fel y'i diffinnir yn y ddogfen hon:

- Dyma fi! (genedigaeth hyd at 12 mis)
- Rwy'n archwilio! (1 i 2 oed)
- Edrycha arna i nawr! (2 i 3 oed)

Maen nhw'n cael eu mynegi o safbwynt y plentyn er mwyn sicrhau bod plant wrth wraidd pob penderfyniad a wneir. Rydyn ni'n gwybod bod plant yn datblygu yn ôl eu cyflymder eu hunain a dylen ni ddarparu ymarfer sy'n ddatblygiadol briodol, o fewn cydberthnasau meithringar, er mwyn diwallu anghenion pob plentyn. Dylid rhoi amser, lle a rhyddid i blant archwilio. Dylai oedolion sy'n galluogi dysgu sylwi ar y newidiadau bach a'r galluoedd cynyddol y bydd plant yn eu dangos drwy eu cyfathrebu, eu gweithredoedd a'u symudiadau wrth iddyn nhw dyfu a datblygu.

Mae'r llwybrau datblygu yn cynrychioli hawl plentyn i brofi amgylchedd lle y caiff chwarae ei werthfawrogi, fel elfen ynddi'i hun ac fel rhan o ddysgu. Mae pob llwybr datblygu yn cynnwys:

- rhesymeg glir sy'n nodi hanfod yr hyn sy'n bwysig ar gyfer datblygiad holistaidd plant yn ystod pob cam
- datganiadau sy'n dechrau gyda'r canlynol ac yn ymhelaethu arny'n nhw:
 - 'Mae angen i mi ... '
 - 'Rwy'n dysgu sut i ... '
 - 'Mae fy ... yn cael ei gyfoethogi gan ... '

Mae'r datganiadau 'Mae angen i mi ... ' yn cyfleu'r cymhellion biolegol a chymdeithasol na all plant eu hanwybyddu, ac na ddylen nhw eu hanwybyddu. Mae'r datganiadau hyn yn cynnwys y cyfleoedd sylfaenol sydd eu hangen ar fabanod a phlant ifanc i ffynnu. Mae cyfrifoldeb arnon ni i gydnabod a deall y cymhellion hyn, er mwyn i ni gynnig cyfleoedd chwarae pwrpasol i bob plentyn ddiwallu'r anghenion sylfaenol hyn. Dylid defnyddio'r datganiadau 'Mae angen i mi ... ' i ategu ein dealltwriaeth o'r hyn y mae angen i ni ei ddarparu o ran cydberthnasau cariadus, profiadau ac amgylcheddau.

Mae'r datganiadau 'Rwy'n dysgu sut i ... ' yn dangos y galluoedd a'r ymagweddau y mae plant yn eu datblygu. Rydyn ni'n gwybod bod cynnydd plant unigol yn debygol o fod yn anghyson o fewn y llwybrau datblygu ac ar eu traws; felly mae'n bwysig ein bod ni'n defnyddio ein harsylwadau i lywio sut y byddwn ni'n rhyngweithio â phlant ac i lywio ein gwaith cynllunio.

Mae'r datganiadau 'Mae fy ... yn cael ei gyfoethogi gan ... ' yn disgrifio'r amodau delfrydol a all gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a chorfforol y plentyn. Bydd sylfaen ein llwyddiant yn dibynnu ar ba mor dda y byddwn ni'n ymateb i'r anghenion datblygol hyn ac yn cynllunio ar eu cyfer.

Y pum llwybr datblygu

Perthyn

Mae perthyn yn hanfodol i'n hymdeimlad o hapusrwydd a lles. Ar gyfer babanod, mae'n dechrau ag ymlyniadau cadarn â'r unigolion allweddol sy'n gofalu amdany'n nhw. Mae cydberthnasau cadarn a sicr yn hanfodol i'r ymdeimlad hwn o berthyn. Wrth iddyn nhw ddatblygu, mae plant yn dechrau dod i ddeall eu lle yn y grwpiau niferus y maen nhw'n perthyn iddyn nhw, a'u pwysigrwydd yn y grwpiau hynny.

Gall ymdeimlad o gynffin arwain at deimladau cadarnhaol o gyswllt â'r cartref a'r lleoliad, ac wrth i'r plant ddod yn hŷn gall hyn ehangu i'r gymuned, Cymru a'r byd ehangach.

Gall lleoliadau sy'n gwerthfawrogi ac yn dathlu profiadau'r plant yn y gorffennol a'r presennol, gartref ac yn eu cymuned, ac sy'n adeiladu ar y profiadau hynny, atgyfnerthu ymdeimlad o berthyn. Mae cyfrifoldeb arnon ni i sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel yn amgylchedd y lleoliad, ac i ddangos gofal gwirioneddol a chymorth emosïynol er mwyn helpu i feithrin ymdeimlad cadarn o berthyn.

Mae perthyn yn bwysig er mwyn llywio ymdeimlad plant o bw ydyn nhw a phwy y gallan nhw fod ac fel y cyfryw, dylai fod yn sail i ethos pob lleoliad yng Nghymru.

Cyfathrebu

Mae cyfathrebu, llafar a dieiriau, yn hanfodol er mwyn i blant ddatblygu. Bydd datblygu dulliau cyfathrebu yn ymwneud â pha bynnag iaith y mae plentyn yn ei defnyddio ac mae'n holl bwysig er mwyn llunio sylfeini cydberthnasau ac yn hanfodol ar gyfer chwarae, dysgu a rhyngweithio cymdeithasol. Mae cymhelliant cryf plant i gyfathrebu drwy ystumiau, symudiadau a lleisiau yn eu helpu i sicrhau bod eraill yn eu deall. Wrth iddyn nhw ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu, sef sylw, gwranddo a deall, maen nhw hefyd yn datblygu iaith fynegiannol, sy'n cynnwys cyfathrebu llafar a dieiriau.

Mae faint o gyfathrebu a'r math o gyfathrebu y mae plant yn ei brofi yn ystod eu blynyddoedd cynnar yn cael effaith amlwg ar eu cyfathrebu. Dylen ni gydnabod fod plant yn datblygu sgiliau ar wahanol gyflymder, a gallwn ni eu helpu i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu drwy ryngweithio a chyfathrebu mewn ffordd wirioneddol ymatebol at wahanol ddibenion.

Dylai amgylchedd sy'n llawn cyfathrebu gynnig cyfleoedd i blant fynegi a chyfleu eu hanghenion, eu meddyliau a'u teimladau ac iddyn nhw wybod y byddan nhw'n cael ymateb priodol. Wrth iddyn nhw ddysgu sgiliau newydd, dylid cynnig cyfleoedd i blant eu defnyddio mewn amrywiaeth o gyd-destunau gyda'i gilydd, gydag oedolion, ar sail un i un neu mewn grwpiau bach. Mae cyfleoedd rheolaidd a chyson i gymryd rhan mewn straeon,

caneuon a rhigymau yn helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu. Mae datblygu sgiliau cyfathrebu effeithiol yn bwysig o ran hunanfyngiant, o ran meithrin cydberthnasau cymdeithasol cryf ac o ran dysgu plentyn yn fwy cyffredinol. Mae sgiliau cyfathrebu hefyd yn cynnwys gweithgareddau gwneud marciau plant, sy'n datblygu o farciau ar hap i farciau mwy pwrpasol, y bydd plant yn dechrau pennu ystyr iddyn nhw. Dylid annog y marciau hyn a'u gwerthfawrogi fel rhan o awydd plant i gyfathrebu drwy ddarluniau, 'ysgrifennu' neu farciau mathemategol.

Archwilio

O adeg eu geni, mae chwilfrydedd naturiol plant am y byd o'u cwmpas yn eu cymell yn gryf i archwilio. Mae plant yn ddatrysyr problemau chwilfrydig sy'n aml yn profi rhyfeddod mewn digwyddiadau pob dydd. Maen nhw'n mwynhau archwilio ac ymchwilio ar eu pen eu hunain a gydag eraill. Maen nhw'n datblygu angen i rannu eu pleser yn yr wybodaeth neu'r sgiliau newydd ac i ddysgu oddi wrth ei gilydd.

Mae'r broses ddysgu yn datblygu chwarae, sgiliau, gwybodaeth a galluoedd yn raddol mewn ffyrdd cynyddol gymhleth. Mae plant yn ffynnu mewn amgylcheddau cynhwysol, dan do ac yn yr awyr agored, a lle ceir cyfleoedd penagored i chwarae, archwilio ac ymchwilio. Gall oedolion sydd ag ymwybyddiaeth o ddi-ddordebau, ymatebion a chiwiau dieiriau plant gefnogi ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu yn ogystal â chynyddu gwybodaeth a sgiliau. O adeg eu geni, mae angen i blant gael cyfleoedd rhyngweithio o ansawdd ac amser gydag oedolyn a all eu helpu i archwilio. Mae'n bwysig bod oedolion yn rhoi'r amser i blant fod yn ymholgar ac i archwilio'r amgylchedd o'u cwmpas yn ddiogel.

Datblygiad corfforol

Mae gweithgarwch corfforol yn cynnig llawer o fanteision i'r plentyn sy'n datblygu. Mae cysylltiad cryf rhwng symud a gwybyddiaeth a dysgu. Gall annog plant i ymgymryd â phrofiadau a gweithgareddau corfforol cyn gynted â phosibl hefyd wella eu hymdeimlad o berthyn a'u lles. Gall arwain at well lefelau canolbwyntio, cymhelliant a chof, yn ogystal â helpu i ddatblygu esgyrn a chyhyrau iach. Am y rheswm hwn, mae sgiliau datblygiad corfforol wedi'u plethu i'r pedwar llwybr datblygu arall, yn ogystal â gweithredu fel llwybr datblygu annibynnol ar wahân.

Lles

Bydd yr oedolion, y profiadau a'r amgylcheddau y daw plant ar eu traws yn dylanwadu arny'n nhw. Pan fydd y tri yn cydweithio'n llwyddiannus, maen nhw'n creu ymdeimlad cryf o les i bawb.

Mae teimlo'n gysylltiedig ac yn ddiogel yn elfennau allweddol o ddatblygu ymdeimlad cryf o les. Gall oedolion sy'n creu amgylcheddau sy'n ddiogel yn emosïynol helpu plant i ddechrau adnabod eu teimladau a'u hymddygiad, a'u rheoli mewn ffyrdd cadarnhaol. Gallan nhw hefyd helpu plant i ddechrau deall bod gweithredoedd yn arwain at ganlyniadau.

Gall plant sydd ag ymlyniadau a chydberthnasau cadarn deimlo'n hyderus ynddyn nhw eu hunain ac maen nhw felly mewn sefyllfa well i wneud dewisiadau, dangos mwy o wydnwch ac annibyniaeth, a chymryd rhan gadarnhaol mewn gweithgareddau pob dydd.

Camau datblygu

Dyma fi! (genedigaeth hyd at 12 mis)

Perthyn

Mae perthyn yn hanfodol i'n hymdeimlad o hapusrwydd a lles. Mae perthyn yn ganolog i lunio pwy yw babanod a phwy y gallan nhw fod. Mae babanod sy'n teimlo eu bod nhw'n cael eu caru, eu meithrin a'u gwerthfawrogi gan oedolion yn fwy tebygol o feithrin cydberthnasau cadarnhaol nawr ac yn y dyfodol.

Cyn gynted ag y cânt eu geni, mae babanod yn chwilio am ymlyniadau. Mae meithrin cydberthnasau cadarn a sicr ag aelodau o'u teulu a'u gweithwyr allweddol yn hanfodol er mwyn i fabanod lunio ymlyniadau cadarnhaol. Gall yr ymlyniadau cadarnhaol hyn helpu babanod i wybod gyda phwy a ble y maen nhw'n perthyn, ac i feithrin ymwybyddiaeth o'u hunaniaeth eu hunain o fewn y cydberthnasau hyn.

Dyma fi! (genedigaeth hyd at 12 mis)

Mae angen i mi:

- deimlo'n ddiogel
- teimlo fy mod i'n cael fy ngharu a'm gwerthfawrogi a chael fy mharchu
- creu cysylltiadau a llunio ymlyniadau
- cael fy neall a chael ymateb

Rwy'n dysgu sut i:

- ddangos sut rwy'n teimlo
- adnabod pobl a phethau cyfarwydd ac anghyfarwydd
- ymateb a rhyngweithio gan ddefnyddio ciwiau llafar a dieiriau
- ymddiried mewn person arwyddocaol a llunio ymlyniadau â'r person hwnnw
- ymateb i oedolion cyfarwydd
- dangos gyda phwy rwy'n hoffi bod
- dangos sut rwy'n hoffi cael fy nal

Mae fy ymdeimlad o berthyn yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:

- cydnabod ac yn cefnogi fy natur unigryw
- ystyried fy mod i'n alluog ac yn fy nghefnogi yn ystod fy nghamau datblygiad cynnar
- rhoi gofal cyson i mi a dangos parch cyson tuag ata i
- defnyddio sgiliau arsylwi i ddeall fy nghiwiau a'm hanghenion
- mwynhau gofalu amdana i, ac yn dangos cariad a hoffter tuag ata i

Dyma fi! (genedigaeth hyd at 12 mis)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy ymdeimlad o berthyn yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
		<ul style="list-style-type: none">• rhyngweithio mewn ffordd ymatebol• cyfathrebu wyneb yn wyneb â mi• amyneddgar ac yn cymryd amser i ddod i'm hadnabod ac i nodi fy anghenion, fy hoff bethau a'm cas bethau• adnabod aelodau fy nheulu ac yn eu parchu fel fy addysgwyr cyntaf drwy feithrin cydberthnasau cryf â nhw• gwybod bod pethau cyfarwydd o gartref yn fy nghysuro• neilltuo digon o amser ar gyfer y cyfnodau pontio niferus sy'n digwydd o ddydd i ddydd• darparu amgylcheddau croesawgar, deniadol a hamddenol• darparu profiadau sy'n diwallu fy anghenion datblygiadol• sicrhau fy mod i'n cael profiadau dan do ac yn yr awyr agored• defnyddio caneuon a rhigymau sy'n gwerthfawrogi iaith a diwylliant fy nghartref• cyflwyno caneuon a rhigymau Cymraeg i mi

Cyfathrebu

Mae cyfathrebu, llafar a dieiriau, yn hanfodol i ddatblygu. Mae'n hanfodol i sylfeini cydberthnasau ac yn allweddol er mwyn chwarae a rhyngweithio'n gymdeithasol. Mae babanod yn mynegi eu hanghenion a'u dymuniadau drwy grio, symudiadau corfforol a chyswllt llygaid, yn ogystal â synau ac ystumiau syml. Wrth i sgiliau cyfathrebu babanod ddatblygu o wenu a chrio i faldorddi a chwerthin, mae'n bosibl y byddan nhw'n dechrau dynwared goslef a synau er mwyn cyfleu eu hanghenion a'u dymuniadau. Mae oedolion cefnogol yn sylwi ar ymdrechion babanod i leisio, ac yn ymateb iddyn nhw'n fwriadol mewn ffyrdd cadarnhaol. Mae datblygu'r sgiliau cyfathrebu cynnar hyn yn bwysig wrth feithrin ymlyniadau cryf ac o ran datblygiad a lles cyffredinol.

Gall oedolion gefnogi datblygiad babanod drwy ddeall eu dulliau cyfathrebu, defnyddio llais tyner a chysurlon, ailadrodd ac ymateb yn eu tro. Mae cyfathrebu â babanod ac ymateb iddyn nhw yn y fath fodd yn eu helpu i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu a dyma ddechrau'r broses o gymryd tro wrth sgwrsio. Gall arsylwi ar gyfathrebu llafar a dieiriau yn ofalus helpu oedolion i ddeall babanod unigol. Mae oedolion cyson a chariadus yn hanfodol er mwyn sicrhau yr ymatebir i anghenion ac arwyddion, gan gyfleu'r neges i fabanod eu bod nhw'n gyfathrebwyr llwyddiannus.

Dylai amgylchedd sy'n llawn cyfathrebu gynnig cyfleoedd i fabanod adnabod lleisiau, ystumiau neu arwyddion cyfarwydd. Dylai hyn eu hannog i faldorddi. Mae arferion dyddiol yn cynnig cyfleoedd rheolaidd gwerthfawr i fabanod brofi amrywiaeth o dulliau cyfathrebu ag oedolion cyfarwydd, gan gynnwys drwy ganeuon a rhigymau.

Dyma fi! (genedigaeth hyd at 12 mis)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy nghyfathrebu yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
<ul style="list-style-type: none">• chwarae a rhyngweithio ag oedolion sy'n ymateb• meithrin cydberthnasau• rhyngweithio â gwrthrychau a defnyddiau diddorol• rhyngweithio ar ffurf 'rhoi a dychwelyd'• cael ymateb	<ul style="list-style-type: none">• ymateb, gan droi fy mhen tuag at synau, ystumiau neu arwyddion• ymateb i fy enw fy hun• canolbwyntio ar bethau yn fy amgylchedd• adnabod oedolion, arwyddion, synau ac ystumiau cyfarwydd• adnabod caneuon a rhigymau cyfarwydd	<ul style="list-style-type: none">• gwranddo'n astud arna i ac ymateb a gwerthfawrogi fy nghyfathrebu• rhyngweithio wyneb yn wyneb â mi• rhoi amser i mi brosesu ac ymateb i'r rhyngweithio• copio'r synau rwy'n eu gwneud a chyflwyno synau newydd

Dyma fi! (genedigaeth hyd at 12 mis)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy nghyfathrebu yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
	<ul style="list-style-type: none">• deall geiriau a ddefnyddir yn aml mewn cyd-destun neu ymateb iddyn nhw• cyfathrebu ag eraill drwy ryngweithio â nhw neu ymateb iddyn nhw ar ffurf lafar a dieiriau• defnyddio, wrth faldorddi, y synau rwy wedi'u clywed yn flaenorol• defnyddio fy synau a'm hystumiau i gael sylw	<ul style="list-style-type: none">• ymateb i mi'n baldorddi â geiriau i'm helpu i greu cysylltiadau rhwng synau a geiriau• fy ystyried yn gyfathrebwr galluog• ysgogi ymdrechion i ryngweithio, canu, darllen a chwarae â mi drwy gydol y dydd• chwarae gemau er mwyn datblygu fy sylw, er enghraifft 'pi-po'• darparu manau priodol, dan do ac yn yr awyr agored, ag adnoddau er mwyn cyflwyno geirfa newydd• cyflwyno amrywiaeth o straeon, caneuon a rhigymau i mi, gan gynnwys rhai o'm diwylliant fy hun, o ddiwylliant Cymru ac yn Gymraeg, yn ogystal â rhai o ddiwylliannau eraill• darparu llyfrau addas i mi eu harchwilio• rhannu eu hoff ganeuon a straeon â mi wrth i mi setlo i fynd i gysgu neu ar adegau tawel eraill• darparu amgylchedd sy'n llawn cyfathrebu

Archwilio

Mae babanod yn naturiol chwilfrydig am yr amgylchedd ac yn awyddus i archwilio. Maen nhw'n ymddiddori ynddyn nhw eu hunain, yn eraill ac yn y byd o'u cwmpas. Wrth i fabanod archwilio drwy chwarae, maen nhw'n arbrofi â synau, golygfeydd, gwrthrychau a gweithgareddau newydd. Maen nhw'n archwilio pwy ydyn nhw a beth y gallan nhw ei wneud drwy ddefnyddio eu corff. Gallan nhw ganolbwyntio ar bethau sydd wedi tynnu eu sylw am gyfnod byr o amser. Maen nhw'n dechrau ailadrodd symudiadau a'u mireinio wrth iddyn nhw ddatblygu eu hymdrechion i archwilio. Wrth i blant ddatblygu, mae gan oedolion ran bwysig i'w chwarae wrth gynnig mwy o gyfleoedd iddyn nhw archwilio.

Dyma fi! (genedigaeth hyd at 12 mis)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy archwilio yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
<ul style="list-style-type: none">• archwilio a darganfod, gan ddefnyddio fy synhwyrau• creu cysylltiadau drwy ailadrodd• symud fy nghorff• chwarae• bod yn chwilfrydig	<ul style="list-style-type: none">• ganolbwyntio ar bethau sydd o ddiddordeb i mi• ymchwilio a thrin gwrthrychau• arbrofi ag achos ac effaith• rheoli fy nghorff a'r hyn y gall ei wneud• archwilio dan do ac yn yr awyr agored• archwilio symudiadau• archwilio gan ddefnyddio fy ngheg, fy nwylo a'm traed• defnyddio cydsymud llaw–llygad• creu cysylltiadau wrth i mi ailadrodd gweithredoedd	<ul style="list-style-type: none">• cynnig cyfleoedd i mi brofi amrywiaeth o fathau o chwarae• darparu amgylchedd diogel sy'n fy ngalluogi i archwilio'r byd o'm cwmpas, dan do ac yn yr awyr agored• cynnig cyfleoedd sy'n ennyn fy niddordeb a'm chwilfrydedd a rhannu'r diddordeb a'r chwilfrydedd â mi• cydnabod a chefnogi fy chwarae sgematig• rhoi amser a chyfleoedd i mi ailadrodd fy chwarae• rhoi'r manau a'r cyfleoedd i mi rollo ac ymestyn er mwyn archwilio fy symudiadau fy hun a'r amgylchedd sydd yn union o'm cwmpas

Dyma fi! (genedigaeth hyd at 12 mis)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy archwilio yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
		<ul style="list-style-type: none">• rhoi amrywiaeth ddiddorol o wrthrychau a manau i mi eu harchwilio• cyflwyno lleoedd a manau y tu hwnt i'm lleoliad i mi• cefnogi fy ymdrechion i fod yn chwilfrydig• defnyddio cerddoriaeth, o'm diwylliant fy hun, o ddiwylliant Cymru ac o ddiwylliannau eraill, i'm helpu i archwilio symudiadau• rhannu fy llawenydd a'm brwdfrydedd a gweld y potensial ar gyfer rhyfeddu• cydnabod a dathlu fy mhenderfyniad a'm hymdrech

Datblygiad corfforol

Wrth i'w cyrff dyfu, mae babanod yn cryfhau eu cyhyrau yn raddol ac mae eu gallu i reoli eu cyrff yn gwella. Dylai oedolion ysgogi ac annog datblygiad sgiliau motor bras a manwl. Mae datblygiad corfforol o ddiddordeb mawr i fabanod wrth iddyn nhw ymarfer y sgiliau y byddan nhw wedi'u dysgu a cheisio datblygu rhai newydd.

Dyma fi! (genedigaeth hyd at 12 mis)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy natblygiad corfforol yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
<ul style="list-style-type: none">• archwilio beth y galla i ei wneud gyda fy nghorff• symud er mwyn datblygu fy nghryfder a'm gallu i gydsymud• symud pethau a chwarae â phethau sy'n symud• mynegi fy hun drwy symudiadau	<ul style="list-style-type: none">• dracio gan ddefnyddio fy llygaid• dechrau rheoli fy nghorff a'r hyn y gall ei wneud• profi fy ngalluoedd a dyfalbarhau• datblygu fy symudiadau motor• archwilio gwrthrychau sydd o fewn cyrraedd ac allan o'm cyrraedd• archwilio'r amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored• rhyngweithio'n gorfforol â'r byd o'm cwmpas• symud yn fwriadol	<ul style="list-style-type: none">• deall camau datblygiad corfforol a sut i roi cymorth i mi• darparu amrywiaeth o fannau i mi symud ynddyn nhw ac o'u cwmpas, dan do ac yn yr awyr agored• arsylwi arna i'n defnyddio manau, sylwi ar fy rheolaeth gynyddol ac ymateb i'm hanghenion datblygol• darparu amgylcheddau diogel dirwystr ac adnoddau a manau ysgogol i mi eu harchwilio• rhoi cyfnodau byr i mi ar fy mol lle y bo'n briodol, gan roi cymorth i mi symud fy nghorff a'm hannog i wneud hynny• cynnig cyfleoedd sy'n fy annog i estyn allan, dal gafael, cicio, symud fy nghoesau a'm pen

Dyma fi! (genedigaeth hyd at 12 mis)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy natblygiad corfforol yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
		<ul style="list-style-type: none">• darparu amgylcheddau diogel ac ysgogol sy'n fy annog i ddal gafael mewn pethau, i bwyso yn erbyn pethau neu i dynnu fy hun i fyny er mwyn cymryd fy nghamau cyntaf• fy nghynnwys mewn gemau, caneuon a rhigymau, gan ddefnyddio symudiadau'r corff

Lles

Mae babanod sydd ag ymlyniadau a chydbberthnasau cadarn yn gallu ymlacio ac mae ganddyn nhw ymdeimlad cryf o les, sy'n eu galluogi i ddangos beth sydd orau ganddyn nhw mewn perthynas â gorffwys, gofal, cysur a maeth. Maen nhw'n dibynnu ar oedolion i ddiwallu eu hanghenion corfforol ac emosiynol ac i deimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd.

Gall oedolion neu weithwyr allweddol sy'n ymateb mewn ffyrdd sensitif, meithringar ac amserol sicrhau bod babanod yn meithrin ymdeimlad cryf o les. Mae lles y baban yn cael ei gyfoethogi pan fydd yr oedolyn yn canolbwyntio ar y baban ac yn ymateb iddo wrth iddo fynegi ei deimladau, ei anghenion a'i ddymuniadau. Mae lles babanod yn cael ei gyfoethogi gan gyfnodau pontio effeithiol rhwng y cartref a'r lleoliad. Mae'n hanfodol bod llinellau cyfathrebu da ar waith er mwyn sicrhau cyfnodau pontio didrfferth. Bydd lefelau uwch o hyder a lles gan fabanod sy'n ymgolli'n gorfforol, yn gymdeithasol, yn emosiynol ac yn wybyddol yn eu chwarae. Mae gan fabanod sydd â lefelau iechyd a lles da chwilfrydedd cynhenid; mae ganddyn nhw awch am fywyd sy'n eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd i dyfu a datblygu.

Dyma fi! (genedigaeth hyd at 12 mis)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy lles yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sydd:
<ul style="list-style-type: none">• deimlo'n ddiogel• dangos fy emosiynau• teimlo cysylltiad ag eraill• teimlo cynhesrwydd, tosturi a chariad• cael amser i orffwys a chysgu• llunio ymlyniadau cadarnhaol cryf• bod yn iach a chael digon o faeth	<ul style="list-style-type: none">• ryngweithio ag unigolion ymatebol eraill• cyfleu fy anghenion a'm dymuniadau• gweld fy hun fel unigolyn• adnabod pobl gyfarwydd• dangos beth sydd orau gen i, gan gynnwys fy hoff bethau a'm cas bethau• dewis gwrthrychau a all roi cysur i mi• dangos emosiynau drwy ryngweithio ag eraill• cael fy nghysuro a dechrau hunanreoleiddio• ymateb i drefn arferol fy niwrnod	<ul style="list-style-type: none">• yn fy neall ac yn rhannu gwybodaeth amdana i â'm teulu• yn fy helpu i ddelio â sefyllfaoedd a phrofiadau anghyfarwydd mewn ffordd sensitif• ar gael yn emosiynol ac yn fy helpu i deimlo'n ddiogel• yn ymateb yn sensitif i'r ffordd rwy'n hoffi cael fy mwydo, fy nal, fy newid a'm setlo i gysgu• yn rhoi dewisiadau i mi er mwyn fy annog i fod yn annibynnol

Dyma fi! (genedigaeth hyd at 12 mis)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy lles yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sydd:
		<ul style="list-style-type: none">• yn rhannu'r pethau rwy'n rhoi sylw iddyn nhw• yn arsylwi ar yr hyn rwy'n ei hoffi a'r hyn nad ydw i'n ei hoffi• yn dilysu fy nheimpladau a'u henwi• yn gwybod beth sy'n fy nghysuro• yn darparu deiet amrywiol a chytbwys a sicrhau fy mod i'n profi'r buddiannau iechyd sy'n gysylltiedig â bod yn yr awyr agored

Rwy'n archwilio! (1 i 2 oed)

Perthyn

Wrth i blant ddod yn fwy hunanymwybodol, byddan nhw'n dechrau meithrin ymdeimlad cryfach o bwy ydyn nhw a beth y gallan nhw ei wneud. Pan fyddan nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu caru, eu meithrin a'u gwerthfawrogi, byddan nhw'n dechrau teimlo'n bwysig yn y gwahanol grwpiau y maen nhw'n perthyn iddyn nhw. Mae ansawdd y cydberthnasau y maen nhw'n rhan ohonyn nhw'n effeithio ar ymdeimlad plant o hunaniaeth ac ymreolaeth. Mae arferion a gwrthrychau cyfarwydd o'u cartref yn helpu plant i deimlo'n ddiogel a gall rhain hwyluso cyfnodau pontio, gan felly o bosibl wella eu hymdeimlad o berthyn.

Rwy'n archwilio! (1 i 2 oed)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy ymdeimlad o berthyn yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
<ul style="list-style-type: none"> • deimlo'n ddiogel • teimlo fy mod i'n cael fy ngharu a'm gwerthfawrogi a chael fy mharchu • creu cysylltiadau a llunio ymlyniadau • cael fy neall a chael ymateb • teimlo cysylltiad ag eraill • gweld fy hun a phobl debyg i mi yn cael eu cynrychioli yn fy lleoliad • chwarae ar fy mhen fy hun ac yng nghwmni eraill 	<ul style="list-style-type: none"> • ddatblygu fy nealltwriaeth o bwy ydw i • dangos sut rwy'n teimlo • gweld fy mod i'n bwysig i eraill • cyfleu fy hoff bethau a'm cas bethau • teimlo'n ddiogel yn ystod fy nhrefn ddyddiol a gyda phobl, lleoedd a gwrthrychau cyfarwydd • chwarae â chymorth, yng nghwmni eraill a gydag eraill • mynegi mwynhad • rhyngweithio ag eraill • ceisio sicrwydd gan oedolion cyfarwydd 	<ul style="list-style-type: none"> • rhoi gofal cyson a dangos parch cyson • ystyried fy mod i'n rhywun a all ddysgu ac sydd ag awydd cryf i archwilio'r byd o'm cwmpas • mwynhau bod yn fy nghwmni ac yn dangos cariad a hoffter tuag ata i • cyfathrebu â mi am yr hyn sy'n digwydd wrth roi gofal • defnyddio sgiliau arsylwi yn effeithiol er mwyn cael gwybod popeth amdana i • ymateb yn ddifffuant i'm diddordebau, fy hoff bethau a'm cas bethau • fy nghynnwys mewn cyfleoedd chwarae pleserus a chwilfrydig

Rwy'n archwilio! (1 i 2 oed)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy ymdeimlad o berthyn yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
		<ul style="list-style-type: none">• gwerthfawrogi a pharchu fy nheulu a chreu cysylltiadau cryf â'm cartref a'm cymuned leol• hyrwyddo ethos cynhwysol sy'n gwerthfawrogi diwylliant amrywiol Cymru• blaenoriaethu fy anghenion wrth wneud penderfyniadau a all effeithio arna i• creu amgylcheddau dan do ac yn yr awyr agored sy'n darparu profiadau chwarae eang ac amrywiol• darparu adnoddau cyfarwydd sy'n adlewyrchu fy niwylliant a'm cymuned• defnyddio ymweliadau ac ymwelwyr i gefnogi fy nghysylltiadau a chyfoethogi fy niddordebau• sicrhau fy mod i'n gweld fy hun a phobl debyg i mi yn cael eu cynrychioli yn fy lleoliad

Cyfathrebu

Mae cyfathrebu, llafar a dieiriau, yn hanfodol i ddatblygu; mae'n hanfodol i sylfeini cydberthnasau ac yn allweddol er mwyn chwarae, dysgu a rhyngweithio'n gymdeithasol.

Wrth i gyfathrebu'r plant ddatblygu, dylai'r oedolion gydnabod y bydd plant o bosibl yn deall mwy nag y gall eu cyfathrebu.

Dylai'r cydberthnasau yn y lleoliad helpu'r plant i greu cysylltiadau er mwyn sylweddoli y caiff eu hymdrechion i gyfathrebu, yn llafar a dieiriau, eu gwerthfawrogi ac yr ymatebir iddyn nhw. Mae gallu arbrofi wrth wneud marciau yn rhan werthfawr o'r daith tuag at gyfathrebu ysgrifenedig.

Dylai amgylchedd sy'n llawn cyfathrebu gynnig cyfleoedd i blant sylwi ar bethau a defnyddio geiriau, ystumiau neu arwyddion syml a rhai ymadroddion byr. Dylai oedolion ddarparu gwrthrychau cyfarwydd ac ychwanegu gair pan fydd plant yn adnabod y gwrthrych.

Dylai oedolion gyflwyno amrywiaeth o wahanol eiriau, arwyddion neu ystumiau er mwyn gwella dealltwriaeth plant o gyfathrebu.

Dylen nhw feithrin cariad at ddarllen drwy rannu llyfrau ac adrodd straeon. Mae arferion dyddiol, fel bwyta gyda'i gilydd a newid cewynau, yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr a rheolaidd i sgwrsio. Mae'n bwysig bod plant yn profi amrywiaeth o ganeuon a rhigymau gydol y dydd ac yn cael cyfle i ymuno yn y caneuon a'r rhigymau hynny. Wrth iddyn nhw ddysgu sgiliau newydd, dylid cynnig cyfleoedd i blant eu defnyddio mewn amrywiaeth o gyd-destunau gyda'i gilydd, neu gydag oedolion.

Mae datblygu'r sgiliau cyfathrebu cynnar hyn yn bwysig o ran hunanfyngiant, gan feithrin ymlyniadau cryf, ac o ran datblygiad a lles cyffredinol plentyn.

Rwy'n archwilio! (1 i 2 oed)

Mae angen i mi:

- chwarae a rhyngweithio ag oedolion ymatebol
- cyfathrebu
- mynegi amrywiaeth o emosiynau
- meithrin cydberthnasau
- rhyngweithio â gwrthrychau a defnyddiau diddorol
- sylwi ar bethau yn fy amgylchedd
- rhyngweithio ar ffurf 'rhoi a dychwelyd'

Rwy'n dysgu sut i:

- ganolbwyntio ar synau neu arwyddion a gwrthrychau yn fy amgylchedd
- canolbwyntio ar bethau sydd o ddiddordeb i mi
- adnabod cerddoriaeth a chanu ac ymateb iddyn nhw
- adnabod lleisiau cyfarwydd ac anghyfarwydd ac ymateb iddyn nhw

Mae fy nghyfathrebu yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:

- fy ystyried yn gyfathrebwr galluog
- defnyddio fy enw er mwyn cael fy sylw
- rhyngweithio wyneb yn wyneb â mi
- rhoi amser i mi wrth rhyngweithio
- dechrau rhyngweithio â mi wrth chwarae â mi

Rwy'n archwilio! (1 i 2 oed)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy nghyfathrebu yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
	<ul style="list-style-type: none">• deall geiriau cyfarwydd sy'n cael eu defnyddio mewn cyd-destun neu ymateb iddyn nhw• ymateb i ymadroddion syml• defnyddio fy synau a'm hystumiau i gael sylw ac i gyfathrebu• ychwanegu at fy maldorddi â geiriau cyfarwydd unigol• defnyddio goslef, traw a newid yng nghryfder y llais wrth gyfathrebu• mynegi fy hoff bethau a'm cas bethau• rhyngweithio'n gymdeithasol, gan gynnwys rhyngweithio ymatebol• cymryd rhan mewn cyfleoedd chwarae ffugiol symbolaidd syml• archwilio llyfrau	<ul style="list-style-type: none">• gwerthfawrogi pan fydda i'n cyfathrebu ac ymateb mewn ffordd sensitif• dangos diddordeb didwyll wrth i ni rhyngweithio ar ffurf 'rhoi a dychwelyd'• ehangu fy ngeirfa drwy wneud sylwadau, ailadrodd ac ymhelaethu• creu amgylcheddau dan do ac yn yr awyr agored sy'n darparu profiadau eang ac amrywiol i fynegi fy hun• sicrhau bod amrywiaeth o lyfrau addas ar gael i gyfoethogi fy ngeirfa a meithrin cariad at lyfrau• fy nghynnwys mewn ffordd weithredol mewn straeon, caneuon a rhigymau o ddiwylliant Cymru ac yn Gymraeg, ac o'm diwylliant fy hun a diwylliannau eraill, gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau• annog chwarae ffugiol ag adnoddau priodol

Archwilio

Ar y cam hwn, mae plant yn ceisio archwilio yn ehangach wrth iddyn nhw ddatblygu. Dylai oedolion fod yn bartneriaid yn chwarae'r plant, gan ddathlu ac ymhyfydu yn chwilfrydedd y plant a'u hymdrechion i archwilio. Mae plant yn ddatrys wryr problemau naturiol, yn herio ffiniau ac yn barod i fentro. Mae oedolion medrus yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i'w hannog i archwilio'n annibynnol. Wrth i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae ailadroddus (sgema), dylai oedolion gynnig cyfleoedd iddyn nhw brofi, darganfod, arbrofi a chreu.

Rwy'n archwilio! (1 i 2 oed)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy archwilio yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
<ul style="list-style-type: none">• archwilio a darganfod gan ddefnyddio fy synhwyrau• creu cysylltiadau• symud fy nghorff• chwarae ar fy mhen fy hun a gydag eraill• archwilio amrywiaeth o wahanol fannau• ymholi a bod yn chwilfrydig am y byd o'm cwmpas	<ul style="list-style-type: none">• ganolbwyntio ar bethau sydd o ddiddordeb i mi• ymchwilio a thrin gwrthrychau ac ymchwilio gwahanol fannau• arbrofi ag achos ac effaith• creu cysylltiadau wrth i mi ailadrodd gweithredoedd• rheoli fy nghorff a'r hyn y gall ei wneud gan ddangos mwy o hyder• archwilio â diben, dan do ac yn yr awyr agored• ymgysylltu ag amrywiaeth o fathau o chwarae• defnyddio fy symudiadau motor manwl mewn ffordd fwy pwrpasol• cyfleu a mynegi fy hun mewn ffordd greadigol• rhannu fy chwilfrydedd ag eraill	<ul style="list-style-type: none">• cynnig cyfleoedd i mi brofi amrywiaeth o fathau o chwarae• darparu amgylchedd diogel sy'n fy ngalluogi i archwilio'r byd o'm cwmpas, dan do ac yn yr awyr agored• darparu profiadau sy'n ysgogi fy niddordeb a'm chwilfrydedd a rhannu'r profiadau hynny• cydnabod a chefnogi fy chwarae sgematig• rhoi amser a chyfleoedd i mi ailadrodd fy chwarae• rhoi amrywiaeth ddiddorol o wrthrychau a mannau i mi eu harchwilio• cyflwyno lleoedd a mannau i mi sydd y tu hwnt i'm lleoliad• sylwi ar fy chwilfrydedd a'i gefnogi ac ystyried fy chwarae fel cyfle dysgu gwerthfawr

Rwy'n archwilio! (1 i 2 oed)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy archwilio yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
	<ul style="list-style-type: none">• darganfod sut mae pethau'n gweithio• gwneud synnwyr o'r byd o'm cwmpas drwy batrymau ymddygiad a gaiff eu hailadrodd• archwilio amrywiaeth o adnoddau a defnyddiau• defnyddio fy synhwyrâu i archwilio'r byd o'm cwmpas	<ul style="list-style-type: none">• fy ystyried fel unigolyn hyderus a galluog• fy ngrymuso i ddarganfod fy ffiniau• rhoi amser a manau i mi ddysgu ar fy mhen fy hun a pheidio ag ymyrryd pan fydda i wedi ymgolli'n llwyr mewn gweithgaredd• arsylwi a sylwi ar fy niddordebau arbennig a'u defnyddio i fy helpu i ddysgu'n fanylach• rhannu fy llawenydd a'm brwdfrydedd a gweld y potensial ar gyfer rhyfeddu• defnyddio'r awyr agored fel man dysgu• cynnig cyfleoedd i mi ddod yn chwilfrydig am Gymru a diwylliant Cymru ac i archwilio agweddau arnyn nhw• fy helpu i feithrin dealltwriaeth drwy ryngweithio mewn ffordd ymatebol• defnyddio cerddoriaeth i'm helpu i archwilio rhythm a symudiadau• cydnabod a dathlu fy mhenderfyniad a'm hymdrech

Datblygiad corfforol

Wrth i blant dyfu, mae eu penderfyniad i feistroli symudiadau, cydbwysedd a sgiliau motor bras a manwl yn datblygu. Ar y cam hwn, mae'n bosibl y bydd plant yn hoffi symud yn rheolaidd ac y bydd angen iddyn nhw wneud hynny. Dylai oedolion helpu'r plant i symud, gan ddarparu lleoedd a manau lle y gallan nhw wneud hyn yn ddiogel. Mae eu chwilfrydedd naturiol nawr yn ehangu ac maen nhw'n dechrau creu cysylltiadau â'r byd o'u cwmpas.

Rwy'n archwilio! (1 i 2 oed)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy natblygiad corfforol yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
<ul style="list-style-type: none">• archwilio beth y galla i ei wneud gyda fy nghorff• symud er mwyn datblygu fy nghryfder a'm gallu i gydsymud• mynegi fy hun drwy symudiadau• bod yn actif• cael dewis o ran sut a phryd i symud	<ul style="list-style-type: none">• gynyddu amrediad fy symudiadau corfforol a'r rheolaeth sydd gen i drostyn nhw• profi fy ngalluoedd a dyfalbarhau• rhyngweithio'n gorfforol â'r byd o'm cwmpas, dan do ac yn yr awyr agored• datblygu fy sgiliau motor manwl ymhellach• ymateb i gerddoriaeth a sain• meistroli sgiliau corfforol drwy ailadrodd• meithrin ymwybyddiaeth ofodol a dygyddmod â rhwystrau	<ul style="list-style-type: none">• deall camau datblygiad corfforol a sut i roi cymorth i mi• darparu profiadau dilys yn y byd naturiol• darparu amgylcheddau diogel dirwyrstr• darparu amrywiaeth o leoedd a manau i mi symud ynddyn nhw ac o'u cwmpas, dan do ac yn yr awyr agored• fy nghynnwys mewn gemau, caneuon a rhigymau, gan ddefnyddio symudiadau'r corff• darparu adnoddau i ddatblygu fy sgiliau trin• cydnabod fy angen i fod yn gorfforol• darparu profiadau i ddatblygu fy ngallu i gydsymud a'm cryfder craidd• rhoi cymorth corfforol i mi wrth i mi geisio symud• fy annog i herio fy hun• rhoi lle ac amser i mi ailadrodd

Lles

Mae plant sydd ag ymlyniadau a chydberthnasau cadarn yn gallu ymlacio ac mae ganddyn nhw ymdeimlad cryf o les, sy'n eu galluogi i ddangos beth sydd orau ganddyn nhw mewn perthynas â gorffwys, gofal, cysur a maeth, ynghyd â dechrau gwneud eu dewisiadau eu hunain gyda chymorth oedolyn.

Bydd yr oedolion, y profiadau a'r amgylcheddau y daw plant ar eu traws yn dylanwadu arnyn nhw. Pan fydd y tri yn cydweithio'n llwyddiannus, maen nhw'n creu ymdeimlad cryf o les i bob plentyn.

Mae teimlo'n gysylltiedig ac yn ddiogel yn elfennau allweddol o ddatblygu ymdeimlad cryf o les. Gall oedolion sy'n creu amgylcheddau sy'n ddiogel yn emosiynol helpu plant i deimlo ei bod hi'n ddiogel iddyn nhw fynegi eu teimladau a'u helpu i gydreoleiddio teimladau sydd weithiau o bosibl yn eu llethu. Mae lles plant yn cael ei gyfoethogi gan gyfnodau pontio effeithiol rhwng y cartref a'r lleoliad. Mae'n hanfodol bod llinellau cyfathrebu da ar waith er mwyn sicrhau cyfnodau pontio didrafferth.

Bydd gan blant sy'n ymgolli'n gorfforol, yn gymdeithasol, yn emosiynol ac yn wybyddol yn eu chwarae lefelau uwch o hyder a lles. Mae gan blant sydd â lefelau iechyd a lles da chwilfrydedd cynhenid. Mae ganddyn nhw awch am fywyd sy'n eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd i dyfu a datblygu.

Rwy'n archwilio! (1 i 2 oed)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy lles yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
<ul style="list-style-type: none">• deimlo'n ddiogel• dangos beth sydd orau gen i• dangos fy emosiynau• teimlo cysylltiad ag eraill• teimlo cynhesrwydd, tosturi a chariad• cael amser i orffwys a chysgu• llunio ymlyniadau cadarnhaol cryf• bod yn iach a chael digon o faeth	<ul style="list-style-type: none">• ryngweithio ag unigolion ymatebol eraill• cyfleu fy anghenion a'm dymuniadau• gweld fy hun fel unigolyn• adnabod pobl gyfarwydd• dangos beth sydd well gen i, gan gynnwys fy hoff bethau a'm cas bethau• dewis gwrthrychau a all roi cysur i mi• dangos emosiynau drwy ryngweithio ag eraill	<ul style="list-style-type: none">• fy neall ac yn rhannu gwybodaeth amdana i â'm teulu• dangos cynhesrwydd a charedigrwydd i'm helpu i deimlo'n ddiogel• hyrwyddo fy annibyniaeth gynyddol• sylwi ar beth sydd well gen i a chynnig cyfleoedd i mi wneud dewisiadau• defnyddio arsylwadau i ddod i fy adnabod yn dda ac adnabod fy nghiwiau dieiriau a'm hanghenion• dilysu fy nheimladau a'u henwi

Rwy'n archwilio! (1 i 2 oed)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy lles yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
	<ul style="list-style-type: none"> • cael fy nghysuro a dechrau hunanreoleiddio • ymateb i drefn arferol fy niwrnod • gwneud dewisiadau • mynegi amrywiaeth o emosiynau drwy weithredoedd ac ystumiau • cymryd rhan mewn arferion dyddiol • meithrin cydberthnasau • ceisio cymorth a chysur gan oedolion cyfarwydd • bod yn gynyddol annibynnol • dechrau rheoleiddio fy nheimpladau drwy geisio cysur 	<ul style="list-style-type: none"> • gwybod beth sy'n fy nghysuro • darparu deiet amrywiol, cytbwys a maethlon i mi • sicrhau fy mod i'n profi'r buddiannau iechyd sy'n gysylltiedig â bod yn yr awyr agored • deall bod angen corff a meddwl iach arna i • darparu urddas a pharch wrth ofalu amdana i • amyneddgar, digynnwrf ac ymatebol i'm helpu i reoleiddio fy emosiynau • parchu ac yn gwerthfawrogi fy chwarae ac yn darparu amrywiaeth o brofiadau i mi • rhoi amser, lle a rhyddid i mi archwilio a darganfod, dan do ac yn yr awyr agored • rhoi cymorth a sicrwydd i mi yn ystod newidiadau sy'n effeithio arna i • cydweithio i ddiwallu fy anghenion a pharchu fy hoff bethau a'm cas bethau • parchu, gwerthfawrogi a chefnogi fy niwylliant a'm treftadaeth a sicrhau bod yr amgylchedd yn fy adlewyrchu i a'm teulu unigryw • fy annog i fod yn ymwybodol o eraill

Edrycha arna i nawr! (2 i 3 oed)

Perthyn

Mae perthyn yn hanfodol i'n hymdeimlad o hapusrwydd a lles. Pan fyddan nhw'n ifanc, mae plant yn dechrau dod i ddeall eu lle yn y grwpiau niferus y maen nhw'n perthyn iddyn nhw, a'u pwysigrwydd yn y grwpiau hynny. Mae cydberthnasau cadarn a sicr yn hanfodol i'r ymdeimlad hwn o berthyn.

Gall ymdeimlad o berthyn arwain at deimladau cadarnhaol o gyswllt â'r cartref a'r lleoliad a gall ehangu i'r gymuned, Cymru a'r byd ehangach. Gall lleoliadau sy'n gwerthfawrogi ac yn dathlu profiadau'r plant yn y gorffennol a'r presennol, gartref ac yn eu cymuned, ac sy'n adeiladu ar y profiadau hynny, atgyfnerthu ymdeimlad o berthyn. Mae cyfrifoldeb arnon ni i sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel yn amgylchedd y lleoliad, ac i ddangos gofal gwirioneddol a chymorth emosiynol er mwyn helpu i feithrin ymdeimlad cadarn o berthyn.

Mae perthyn yn bwysig er mwyn llywio ymdeimlad plant o bwy ydyn nhw a phwy y gallan nhw fod ac, fel y cyfryw, dylai fod yn sail i ethos pob lleoliad yng Nghymru.

Edrycha arna i nawr! (2 i 3 oed)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy ymdeimlad o berthyn yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
<ul style="list-style-type: none"> • deimlo fy mod i'n cael fy ngharu, fy ngwerthfawrogi a'm parchu • teimlo'n ddiogel • chwarae ar fy mhen fy hun, yng nghwmni eraill neu gydag eraill • creu cysylltiadau â phobl, lleoedd cyfarwydd a phethau • cael fy neall a chael ymateb • gweld fy hun a phobl debyg i mi yn cael eu cynrychioli yn fy lleoliad 	<ul style="list-style-type: none"> • wybod pwy ydw i • gwybod fy mod i'n bwysig i'r rhai sydd o'm cwmpas • cymryd rhan mewn arferion dyddiol • dilyn rhai rheolau a pharchu ffiniau • adnabod fy anghenion fy hun a dechrau sylwi ar anghenion pobl eraill • gofalu am bethau byw a phethau nad ydyn nhw'n fyw yn fy amgylchedd 	<ul style="list-style-type: none"> • fy nhrin fel dysgwr galluog • rhoi gofal cyson i mi a dangos parch cyson tuag ata i • mwynhau bod yn fy nghwmni ac yn dangos cariad a hoffter tuag ata i • gwneud amser i mi ac ymateb yn ddiffuant i'm diddordebau, fy hoff bethau a'm cas bethau • dangos ymagwedd lawn a chwilfrydig at ddysgu

Edrycha arna i nawr! (2 i 3 oed)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy ymdeimlad o berthyn yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
	<ul style="list-style-type: none">• adnabod elfennau tebyg rhwng pethau ac adnabod bod gen i bethau sy'n gyffredin ag eraill• ceisio sicrwydd gan oedolion cyfarwydd	<ul style="list-style-type: none">• darparu adnoddau sy'n cefnogi cydweithrediad• cynllunio profiadau ystyrlon drwy arsylwi ar fy newisiadau chwarae a beth sydd well gen i• blaenoriaethu fy anghenion wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arna i• fy helpu i chwarae ar fy mhen fy hun, yng nghwmni eraill neu gydag eraill• darparu arferion cyfarwydd y gellir eu rhagweld sy'n cynnwys cyfleoedd i mi helpu â thasgau dyddiol• darparu adnoddau cyfarwydd sy'n adlewyrchu fy niwylliant a'm cymuned• sicrhau bod yr amgylchedd a'r adnoddau yn gwbl gynhwysol er mwyn i mi allu gweld fy mod i'n cael fy nghynrychioli• hyrwyddo ethos cynhwysol sy'n gwerthfawrogi diwylliant amrywiol Cymru• cynnig cyfleoedd priodol i brofi fy niwylliant fy hun a gwahanol ddiwylliannau eraill mewn cyd-destunau dilys• meddu ar gysylltiadau cryf â'm cartref a'm cymuned leol

Edrycha arna i nawr! (2 i 3 oed)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy ymdeimlad o berthyn yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
		<ul style="list-style-type: none">• defnyddio ymweliadau ac ymwelwyr i gefnogi cysylltiadau a chyfoethogi diddordebau• creu amgylcheddau dan do ac yn yr awyr agored sy'n darparu amrywiaeth eang o brofiadau chwarae

Cyfathrebu

Mae cyfathrebu, llafar a dieiriau, yn hanfodol er mwyn i blant ddatblygu. Mae'n hanfodol i sefydlu cydberthnasau ac yn allweddol er mwyn dysgu, chwarae a rhyngweithio'n gymdeithasol. Wrth i blant dyfu, maen nhw'n datblygu eu gallu i ddeall ac i gael eu deall, sy'n eu helpu i ddysgu'n fwy effeithiol. Mae cyfathrebu yn cynnwys datblygu sgiliau gwranddo, canolbwyntio a deall ochr yn ochr â datblygu iaith fynegiannol, ar lafar ac yn ddieiriau.

Gall faint o gyfathrebu a'r math o gyfathrebu y mae plant yn ei brofi gael effaith amlwg ar ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu. Mae plant yn caffael ac yn datblygu sgiliau ar wahanol gyfraddau, a gallwn ni eu helpu i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu drwy fodelu dulliau ymateb a chyfathrebu gweithredol at wahanol ddibenion. Dylai oedolion ddefnyddio sgiliau cyfathrebu i gyflwyno amrywiaeth o eiriau er mwyn gwella dealltwriaeth gynyddol plant o iaith. Dylai amgylchedd sy'n llawn cyfathrebu gynnig cyfleoedd i blant fynegi a chyfleu eu hanghenion, eu meddyliau a'u teimladau ar lafar ac yn ddieiriau. Wrth iddyn nhw ddysgu sgiliau newydd, dylid cynnig cyfleoedd i blant eu defnyddio mewn amrywiaeth o gyd-destunau gyda'i gilydd, gydag oedolion, mewn grwpiau bach iawn neu ar sail un i un. Mae cyfleoedd rheolaidd a chyson i gymryd rhan mewn straeon, caneuon a rhigymau yn helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu. Mae datblygu sgiliau cyfathrebu effeithiol yn bwysig o ran hunanfyngiant, o ran meithrin cydberthnasau cymdeithasol cryf ac o ran dysgu plentyn yn fwy cyffredinol. Mae gallu pennu ystyr i farciau yn ymdrech greadigol sy'n galluogi plant i ddechrau eu taith tuag at gyfathrebu ysgrifenedig, boed hynny ar ffurf lluniau, ysgrifennu neu farciau mathemategol cynnar.

Edrycha arna i nawr! (2 i 3 oed)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy nghyfathrebu yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
<ul style="list-style-type: none">• gyfathrebu• sylwi ar bethau yn fy amgylchedd• cael digon o amser i brosesu ac ymateb wrth rhyngweithio• mynegi amrywiaeth o emosiynau• meithrin cydberthnasau cymdeithasol• cael pobl i wrando arna i, cael fy neall a chael ymateb	<ul style="list-style-type: none">• ddatblygu fy ngallu i ganolbwyntio wrth chwarae• cymryd sylw o bobl eraill• dangos fy mod i'n deall ymadroddion, sylwadau a chyfarwyddiadau• dangos fy mod i'n deall cysyniadau syml fel 'yn', 'ar' ac 'o dan', neu 'mawr' a 'bach'• mynegi fy anghenion a'm teimladau	<ul style="list-style-type: none">• modelu sgiliau cyfathrebu da, gan gynnwys meddwl yn uchel• dilyn fy arweiniad ac yn rhoi amser i mi gyfathrebu a sôn am fy niddordebau• fy helpu i gyfathrebu ar lafar ac yn ddieiriau ac yn ymateb yn sensitif i'r cyfathrebu hwnnw• fy helpu i rannu fy syniadau wrth chwarae

Edrycha arna i nawr! (2 i 3 oed)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy nghyfathrebu yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
	<ul style="list-style-type: none">• cofio digwyddiadau diweddar iawn neu gyfarwydd• gwneud marciau• adnabod enghreifftiau o gyfathrebu llafar a dieiriau ac weithiau ymateb iddyn nhw• dangos fy mod i'n meddwl drwy chwarae• ymgymryd ag arferion cyfarwydd a dechrau dynwared rolau a sefyllfaoedd cyfarwydd wrth chwarae• ymuno mewn straeon, caneuon a rhigymau cyfarwydd	<ul style="list-style-type: none">• rhoi digon o amser i mi brosesu cwestiynau neu gyfarwyddiadau ac ymateb iddyn nhw• ymhelaethu ar yr hyn rwy'n ei ddweud, gan ychwanegu gair neu eiriau pan fydda i'n cyfathrebu ymadrodd byr neu frawddeg fer• darllen llyfrau a'm hannog i ymuno pan fydd ymadroddion yn ailadrodd neu pan fydd modd rhagweld geiriau sy'n odli• rhannu straeon, caneuon a rhigymau o'm diwylliant fy hun a diwylliannau eraill• defnyddio pypedau, offer a chyfryngau digidol i'm helpu i ddechrau ailadrodd straeon a rhigymau cyfarwydd• ehangu a chyfoethogi fy ngeirfa mewn cyd-destunau chwarae ystyrlon• cynnig cyfleoedd i mi feithrin fy nealltwriaeth o gysyniadau• cynnig cyfleoedd dilys i wneud marciau• creu amgylcheddau, dan do ac yn yr awyr agored, sy'n darparu amrywiaeth eang o brofiadau i mi fynegi fy hun yn gorfforol, yn greadigol ac yn ddychmygol• cynnig cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau chwarae rôl dilys a chyfarwydd

Archwilio

Ar y cam hwn, mae plant yn dechrau cyfathrebu ac ymgysylltu ag eraill wrth archwilio. Wrth i blant ddatblygu ac wrth i'w sgiliau gynyddu, mae eu cyfleoedd i archwilio ac ymchwilio mewn modd pwrpasol yn ehangu. Gall plant ymgolli yn ei harchwilio wrth i'w sgiliau dyfalbarhad a gwydnwch ddatblygu. Daw eu chwarae yn fwy cymhleth ac ystyrion. Daw'r cyfleoedd i ailadrodd, dychwelyd ac ailystyried yn gynyddol bwysig i'r plentyn. Wrth i hyder plant gynyddu, gallan nhw fod yn arwain y chwarae, a dylai oedolion hwyluso hyn a rhannu ym mhleser a chyffro'r plant.

Edrycha arna i nawr! (2 i 3 oed)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy archwilio yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
<ul style="list-style-type: none">• archwilio a darganfod, gan ddefnyddio fy synhwyrâu• creu cysylltiadau• symud fy nghorff• mentro• chwarae• cyfleu a mynegi fy hun mewn ffordd greadigol• ymholi a bod yn chwilfrydig am y byd o'm cwmpas	<ul style="list-style-type: none">• ganolbwyntio ar bethau sydd o ddiddordeb i mi• meithrin fy nealltwriaeth o sut mae pethau'n gweithio• rhannu'r pethau y bydda i'n eu darganfod• dangos fy mod i'n meddwl wrth archwilio• chwarae â niferoedd, er enghraifft didoli a chasglu• trosglwyddo beth y bydda i'n ei ddysgu i sefyllfaoedd newydd• sylwi ar elfennau tebyg ac elfennau gwahanol rhwng pobl, lleoedd a phethau• defnyddio fy synhwyrâu a'm corff i archwilio'r byd o'm cwmpas	<ul style="list-style-type: none">• cynnig cyfleoedd dilys i chwarae ac arbrofi ag amrywiaeth o ddefnyddiau, gweadau ac adnoddau, dan do ac yn yr awyr agored• rhannu fy llawenydd a'm brwdfrydedd a gweld y potensial ar gyfer awch a rhyfeddod• arsylwi a sylwi ar fy niddordebau arbennig a'u defnyddio i fy helpu i ddysgu'n fanylach• fy ystyried fel unigolyn hyderus, galluog a chwilfrydig a chefnogi, dathlu ac annog fy chwilfrydedd• sylwi ar fy mhatrymau chwarae sgematig sy'n ailadrodd a'u cefnogi• cydnabod a dathlu fy mhenderfyniad a'm hymdrech

Edrycha arna i nawr! (2 i 3 oed)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy archwilio yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
	<ul style="list-style-type: none">• adnabod achos ac effaith• archwilio ac arbrofi â diben, dan do ac yn yr awyr agored• creu ac arbrofi gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau a defnyddiau• rhannu fy chwilfrydedd ag eraill• cyfleu a mynegi fy hun mewn ffordd greadigol	<ul style="list-style-type: none">• rhoi amser i mi chwarae heb ymyriadau• deall pwysigrwydd fy chwarae a chynnig cyfleoedd i mi ddychwelyd ato neu ei ailadrodd• cydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth o fathau o chwarae• gwerthfawrogi'r broses yn hytrach na'r cynnyrch terfynol a gaiff ei greu• cyfoethogi'r amgylcheddau dan do ac yn yr awyr agored ag adnoddau penagored sy'n ennyn fy chwilfrydedd• defnyddio'r awyr agored fel man dysgu• cynnig cyfleoedd i mi ddod yn chwilfrydig am Gymru a diwylliant Cymru, ac i archwilio agweddau arnyn nhw• fy helpu i feithrin dealltwriaeth drwy ryngweithio mewn ffordd ymatebol• cefnogi a datblygu iaith a chysyniadau mathemategol a gwyddonol mewn ffyrdd ystyrlon• fy helpu i feddwl wrth i mi arbrofi ac archwilio, gan adael i mi wneud camgymeriadau• defnyddio adnoddau dilys i ddod â straeon, rhigymau a cherddi yn fyw

Edrycha arna i nawr! (2 i 3 oed)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy archwilio yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
		<ul style="list-style-type: none">• darparu amrywiaeth o lyfrau, gan gynnwys llyfrau ffeithiol, ac adnoddau digidol priodol i mi i'm helpu i ymchwilio• defnyddio cerddoriaeth a dawns i ennyn fy niddordeb

Datblygiad corfforol

Mae angen i bob plentyn symud, neu gael ei symud, ynghyd â symud neu drin gwrthrychau, yn aml ar ffurf ailadroddus, fel rhan o'i ddatblygiad. Mae hyn yn cynnwys trin gwrthrychau gan ddefnyddio sgiliau motor bras a manwl. Gall y symudiadau motor hyn gael eu mireinio a dod yn llyfnach o gael amser a chyfleoedd. Mae ailadrodd ac amrywiaeth yn hanfodol i ddatblygiad wrth i blant ddechrau archwilio eu galluoedd corfforol cynyddol.

Mae gweithgarwch corfforol yn cynnig llawer o fanteision i'r plentyn sy'n datblygu. Mae symud yn gysylltiedig â gwybyddiaeth a dysgu, a gall cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol gyfoethogi ymdeimlad plant o berthyn a lles. Gall arwain at well lefelau canolbwyntio, cymhelliant a chof, yn ogystal â helpu i ddatblygu esgyrn a chyhyrau iach. Am y rheswm hwn, mae sgiliau datblygiad corfforol wedi'u plethu i'r pedwar llwybr datblygu arall, yn ogystal â gweithredu fel llwybr datblygu annibynnol ar wahân.

Edrycha arna i nawr! (2 i 3 oed)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy natblygiad corfforol yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
<ul style="list-style-type: none">• ddatblygu fy nghryfder, fy ngallu i gydbwyso ac i gydsymud• archwilio beth y galla i ei wneud gyda fy nghorff• mynegi fy hun drwy symudiadau• bod yn chwilfrydig o ran sut y galla i ryngweithio'n gorfforol â'r byd o'm cwmpas• datblygu fy sgiliau motor bras a manwl• bod yn actif a herio fy hun yn gorfforol• cael dewis o ran sut a phryd i symud	<ul style="list-style-type: none">• gydgysylltu fy symudiadau• symud yn ddiogel• cydbwyso• symud ar amrywiaeth o arwynebeddau• cydgysylltu fy nwylo a'm llygaid• mentro'n gorfforol• trin ac archwilio gwrthrychau llai• datblygu a mireinio fy sgiliau motor bras a manwl• ymateb i gerddoriaeth a rhythm• meithrin ymwybyddiaeth ofodol a dygymod â rhwystrau, dan do ac yn yr awyr agored	<ul style="list-style-type: none">• deall camau datblygiad corfforol a sut i fy helpu• darparu profiadau dilys yn y byd naturiol• cynnig cyfleoedd i ddatblygu fy ngallu i gydsymud a'm cryfder craidd, gan ddefnyddio amrywiaeth o arwynebeddau a strwythurau• arsylwi arna i'n defnyddio manau, sylwi ar fy rheolaeth gynyddol ac ymateb i'm hanghenion datblygol• cynnig cyfleoedd dyddiol i ddatblygu fy sgiliau motor bras a manwl

Edrycha arna i nawr! (2 i 3 oed)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i:	Mae fy natblygiad corfforol yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
	<ul style="list-style-type: none">• symud pethau a chwarae â phethau sy'n symud• mynegi fy hun mewn manau bach a mawr	<ul style="list-style-type: none">• cynnig amgylcheddau cynhwysol dan do ac yn yr awyr agored sy'n fy helpu i symud a bod yn actif• darparu manau chwarae dirwyst• cydnabod fy angen i fod yn gorfforol y rhan fwyaf o'r dydd• rhannu fy llawenydd wrth ymgymryd â gweithgarwch corfforol• fy annog i ystyried a rheoli risgiau a herio fy hun• cynnig cyfleoedd i mi brofi a chymryd rhan mewn amrywiaeth o gerddoriaeth, sain a symudiadau• rhoi lle ac amser i mi ailadrodd symudiadau

Lles

Bydd yr oedolion, y profiadau a'r amgylcheddau y daw plant ar eu traws yn dylanwadu arnyn nhw. Pan fydd y tri yn cydweithio'n llwyddiannus, maen nhw'n creu ymdeimlad cryf o les i bawb. Mae teimlo'n gysylltiedig ac yn ddiogel yn elfennau allweddol o ddatblygu ymdeimlad cryf o les. Gall oedolion sy'n creu amgylcheddau sy'n ddiogel yn emosiynol helpu plant i ddechrau adnabod eu teimladau a'u hymddygiad a'u rheoli mewn ffyrdd cadarnhaol. Gallan nhw hefyd helpu plant i ddechrau deall bod gweithredoedd yn arwain at ganlyniadau. Gall plant sydd ag ymlyniadau a chydberthnasau cadarn deimlo'n hyderus ynddyn nhw eu hunain ac maen nhw felly mewn sefyllfa well i wneud dewisiadau, dangos mwy o wydnwch ac annibyniaeth a chymryd rhan gadarnhaol mewn gweithgareddau pob dydd.

Bydd gan blant sy'n ymwneud yn gorfforol, yn gymdeithasol, yn emosiynol ac yn wybyddol â chwarae ac yn ymgolli ynddo, lefelau uwch o les. Byddan nhw'n datblygu eu teimladau o hunan-werth a hyder.

Edrycha arna i nawr! (2 i 3 oed)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i	Mae fy lles yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
<ul style="list-style-type: none">• deimlo'n ddiogel• gwneud dewisiadau• dilyn fy niddordebau fy hun• dangos fy emosiynau• teimlo cysylltiad ag eraill• teimlo cynhesrwydd, tosturi a chariad• teimlo fy mod i'n cael fy ngharu• gweld fy mod i a'm byd yn cael eu hadlewyrchu yn yr amgylchedd• cael amser i orffwys a chysgu• teimlo fy mod i'n cael gofal a chysur• bod yn iach a chael digon o faeth	<ul style="list-style-type: none">• nodi beth sydd well gen i a gwneud dewisiadau• rhyngweithio ag eraill• cymryd tro a rhannu, â chymorth• dangos fy hoff bethau a'm cas bethau• bod yn garedig• adnabod fy nheimpladau• adnabod teimladau pobl eraill• rheoleiddio fy ymatebion â chymorth• gwybod sut rwy'n debyg ac yn wahanol i eraill• gwybod bod fy ngweithredoedd i a gweithredoedd pobl eraill yn arwain at ganlyniadau	<ul style="list-style-type: none">• parchu a gwerthfawrogi fy chwarae• darparu amrywiaeth o ddewisiadau wrth i mi chwarae• ddigynnwrf, amyneddgar a chyson ac yn dangos dealltwriaeth• rhoi amser, lle a rhyddid i mi archwilio a darganfod, dan do ac yn yr awyr agored• hyrwyddo fy annibyniaeth gynyddol• fy helpu i reoli ansicrwydd a newid• adnabod a pharchu fy nheimpladau drwy ddangos tosturi a chynhesrwydd• dilysu fy nheimpladau a fy helpu i ddechrau rheoleiddio fy emosiynau

Edrycha arna i nawr! (2 i 3 oed)

Mae angen i mi:	Rwy'n dysgu sut i	Mae fy lles yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sy'n:
	<ul style="list-style-type: none">• dod yn annibynnol o ran fy hylendid personol• rhoi gofal a chysur i eraill• cymryd rhan mewn arferion dyddiol a'u dilyn• meithrin cydberthnasau	<ul style="list-style-type: none">• fy annog i gymryd rhan weithredol yn fy nysgu• gwranddo, yn arsylwi ac yn sylwi ar fy nealltwriaeth ddatblygol• cydweithio i ddiwallu fy anghenion a pharchu fy hoff bethau a'm cas bethau• mwynhau bod yn fy nghwmni ac yn dangos cariad a hoffter tuag ata i• parchu, gwerthfawrogi a chefnogi fy niwylliant a'm treftadaeth, a sicrhau bod yr amgylchedd yn fy adlewyrchu i a'm teulu unigryw• rhoi bwyd a diod iach a maethlon i mi

